



Newyddion Ymchwil

Gorffennaf
2020

Yn y rhifyn yma...

- Neges gan y Cyfarwyddwr Ymchwil
- Cyllid i syniadau sy'n rhoi sylw i COVID-19
- Newyddion Staff
- Grantiau Ymchwil Diweddar

Neges gan y Cyfarwyddwr Ymchwil

Annwyl gydweithwyr,

Mae'n bleser mawr cyflwyno ein cylchlythyr ymchwil ac effaith ar ei newydd wedd, sy'n cynnig ffordd gyflym o rannu newyddion am ymchwil ac effaith. Rydym wedi cael llwyddiant mawr wrth ennill grantiau, ac mae'n bleser cael cydnabyddiaeth o'r parch tuag at gydweithwyr yn y coleg, ac mae llawer iawn o eitemau eraill o ddiddordeb i'w rhannu hefyd. Cawsom ormod o newyddion i gynnwys popeth yma, ond rydym yn gobeithio gallu cyhoeddi'r eitemau hynny eto gan ein bod yn bwriadu cyhoeddi'r cylchlythyr yn rheolaidd. Os nad ydym wedi cynnwys eich newyddion diweddaraf - cysylltwch â ni trwy anfon neges e-bost i:

cahbresearch@bangor.ac.uk

Rhai eitemau cyffredinol er gwybodaeth. Ar hyn o bryd mae Grŵp Strategaeth Ymchwil ac Effaith y coleg yn gweithio ar strategaeth ymchwil ac effaith i'r coleg ac rydym yn gobeithio y gallwn ei rhannu gyda chi cyn dechrau'r flwyddyn academiaidd newydd ym mis Medi. Rydym hefyd yn falch o groesawu'r Athro Carol Tully i'r grŵp ac mae hi wedi cytuno'n garedig i gefnogi'r coleg yn ein hymdrechion i gynyddu nifer y grantiau rydym yn eu hennill. Bydd Carol yn rhannu ei barn a'i syniadau dros y misoedd nesaf.

Gobeithio y gwnewch fwynhau'r fformat newydd ac y byddwch yn cysylltu â ni â rhagor o straeon diddorol.

Gyda dymuniadau gorau a chan obeithio y cewch amser i ganolbwyntio ar ymchwil, ymgysylltu ac effaith yn ystod yr haf!

Martina a Nathan

Cyllid i syniadau sy'n rhoi sylw i COVID-19

Mae UKRI yn gwahodd cynigion ar gyfer projectau tymor byr (hyd at 18 mis) sy'n rhoi sylw i COVID-19 ac sy'n lliniaru'r effeithiau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Dyma ffordd wych o sicrhau grantiau, a hybu eu defnydd a'u heffaith, yn ogystal â helpu'r frwydr yn erbyn COVID-19.

Does dim dyddiad cau - caiff ceisiadau eu hasesu ar dreigl - ac mi gewch chi wneud cais ar unrhyw adeg. Mae grantiau ar gael am 80% o'r gost economaidd lawn (fEC) trwy gyllid y Cyngor Ymchwil. Rhaid i'r cynnig ddangos y canlynol

- ymchwil neu arloesedd newydd a'r llwybr yn glir o ran yr effaith a'r potensial (yn ystod cyfnod y grant) i wneud cyfraniad sylweddol at ddeall pandemig COVID-19 a'i effeithiau, ac ymateb iddo.

- casglu data ac adnoddau allweddol yn gyflym at ddefnydd ymchwil yn y dyfodol

Mae croeso i chi gysylltu â Martina a Nathan i drafod eich syniadau.




UK Research and Innovation

Mwy o wybodaeth:

bit.ly/3hgdsoo

Newyddion staff



Tri o Brifysgol Bangor ar restr fer Llyfr y Flwyddyn

Ifan Morgan Jones, Alys Conran and Zoë Skouilding wedi gyrraedd rhestr fer Llyfr y Flwyddyn. Gellir pleidleisio i bob llyfr o dan y categori Barn y Bobl. Mae gwobr Llyfr y Flwyddyn Llenyddiaeth Cymru yn un o uchafbwyntiau'r flwyddyn lenyddol yng Nghymru a'r gobaith yw y cyhoeddir enwau'r enillwyr ddiwedd Gorffennaf.

Gwella gallu gofodol er mwyn helpu i gau'r bwlch rhwng y rhywiau mewn pynciau STEM

Gwella gallu gofodol er mwyn helpu i gau'r bwlch rhwng y rhywiau mewn pynciau STEM. Prifysgol Bangor yn bartner mewn cyllid gan Horizon 2020 werth €4m. Bydd Prifysgol Bangor yn cyfrannu arbenigedd at broject Ewropeaidd newydd i wella galluoedd gofodol plant, gyda'r nod o helpu i gau'r bwlch rhwng y rhywiau ym maes gwyddoniaeth, peirianeg technoleg a mathemateg (STEM).

NEWYDDION STAFF



Yn ystod Mehefin, mae'r **Athro Vian Bakir** (Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau) yn gweithredu fel adolygydd panel ar gyfer cystadleuaeth canolfan ragoriaeth ymchwil ar ddiogelu dinasyddion ar-lein a gynhelir gan UKRI. Mae hyn yn cynnwys adolygu nifer o geisiadau ar gyfer y buddsoddiad o £6.89 miliwn, penderfynu ar y cryfaf, a chyfweld ymgeiswyr.

- Enwebwyd tîm Cyfraith Gyhoeddus [Ysgol y Gyfraith Bangor](#) ar gyfer dwy Wobr Senedd y DU eleni
- Ymchwil Ysgol Buses Bangor: [Local land value tax: technical assessment](#)
- Adroddiad Ymchwil Newydd Ysgol y Gyfraith: [Public Administration and a Just Wales](#)
- [Galwad am bapurau](#): Ymchwiliad academiaidd i drychineb Tŵr Grenfell mewn cysylltiad â'r Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas, Prifysgol Bangor
- Mae Dr Eben Muse, uwch ddarlithydd yn yr Ysgol Cerddoriaeth a'r Cyfryngau, ynghyd â Dr Samantha Rayner, cyfarwyddwr y Ganolfan Cyhoeddi yn UCL, wedi lansio sefydliad i ddod â llyfrwerthwyr, ymchwilwyr a chymdeithasau ynghyd i ddathlu ac edrych ar werthu llyfrau yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Ewch i'n [gwefan](#) a dilynwch y rhwydwaith ar Twitter, @BooksellingRes1
- [Canolfan Moeseg Data ac Arloesi](#). Adroddiad annibynnol gan CDEI yn cyhoeddi papur byr ar dechnoleg adnabod wynebaw.
- Gwahoddwyd [Dr. Marco Tamburelli](#), Ysgol Ieithoedd, Llenyddiaethau ac Ieithyddiaeth i fod yn olygydd gwadd.

Academyddion Prifysgol Bangor yn cael eu hanrhydeddu gan [Academi Cymru](#).


Three Bangor University academics are among the new entrants to the Learned Society of Wales' Fellowship.

They join 40 other new Fellows, all of whom share a link with Wales, its universities or intellectual life and are drawn from all specialisms.

The new Fellows from Bangor University are:

- [Professor Nathan Abrams](#) FRHistS FHEA, Professor of Film Studies
- [Emeritus Professor Peter Field](#), Emeritus Professor, School of Languages, Literatures and Linguistics
- [Dr Sue Niebrzydowski](#), Reader in Medieval Literature

Eitemau o ddi-ddordebau



Cydweithio ag arlunydd i gyflwyno Cymdeithaseg ar ffurf cofiadwy

Mae Dr Rhian Hodges a Dr Cynog Prys o'r Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas wedi cydweithio â'r cartwnydd Huw Aaron er mwyn cyflwyno maes pwysig Cymdeithaseg ar ffurf hwyliog a chofiadwy yn y Gymraeg.

MWY O WYBODAETH

bit.ly/2Wq8wMD



[Hidden Texts, Hidden Nation:](#) (Re)Discoveries of Wales in Travel Writing in French and German (1780-2018). / Jones, Kathryn ; **Tully, Carol**; Williams, Heather.

Gwrandewch ar Dr. Jonathan Ervine yn trafod cofiant Philippe Auclair o [Eric Cantona](#).


Gwyddorau Cymdeithasol, Dyniaethau a Chelfyddydau ar gyfer Pobl a'r Economi ([SHAPE](#)) - ymgyrch newydd i gydnabod gwerth y pynciau hyn wrth ddeall y byd o'n cwmpas a'r bobl ynddo. Arddangos y ffordd y mae'r pynciau yn helpu adeiladu gwell dyfodol wrth gydweithio â phynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM).

NEWYDDION ION

Mae Ysgol Fusnes Bangor wedi cynhyrchu'r 6ed rhifyn o'u Newyddlen Busnes. Mae'n cynnwys erthyglau defnyddiol ynghyd â dolenni at amrywiaeth o sefydliadau sy'n cynnig cefnogaeth i fusnesau. Dilynwch y linc yma i weld y rhifyn diweddaraf.

Rhifyn diweddaraf:

→ bit.ly/2OAwWB5



Llongyfarchiadau mawr i bawb a gyrhaeddodd y rhestr fer yn y Gwobrau Addysgu dan Arweiniad Myfyrwyr diweddar. Da iawn i **Martina Codice** - Ysgol leithoedd, Llenyddiaethau ac Ieithyddiaeth am dderbyn Athro Ôl-raddedig y Flwyddyn. Yn ôl myfyrwyr, mae *Martina yn cyflwyno darlithoedd gwych, wedi'u hymchwilio'n dda, ac mae myfyrwyr yn gwerthfawrogi ei brwdfrydedd a'i hangerdd dros ei phwnc yn fawr.*

Grantiau Ymchwil Diweddar

Teitl y Project: Poetry in Transatlantic Translation: Circulation and Practice Across Languages.

[Galwad Cymrodyr Arweinyddiaeth](#). Dr Zoë Skoulding - Ysgol Ieithoedd, Ieithyddiaeth a Llenyddiaethau.

Llyfrgell Gladstone.

Stephen Clear, **Ysgol y Gyfraith**- wedi derbyn Ysgoloriaeth Ernest Walder gan Lyfrgell Gladstone ar gyfer 2020.

Teitl y Project: How do accounting practices of the UK tax credits system effect claimants?

[COMMITTEE FOR DEPARTMENTS OF ACCOUNTING AND FINANCE \(CDAF\)](#)

Dr Sara Closs-Davies- **Ysgol Busnes Bangor**. Bwrsariaeth gwerth £1,500 i helpu Sara i ddatblygu ei hymchwil, mynd i gynadleddau a chyhoeddi papurau academaidd.

Project: Ariannu gweithdy rhyngwladol gyda dangosiadau ffilm, gyrsiau a chyhoeddiadau.

Yr Athro Nathan Abrams- Cerddoriaeth a'r Cyfryngau. Wedi derbyn grant gwerth £5,725 gan gynllun UK-Israel Inter-University Strategic Cooperation y Cyngor Prydeinig.



Academic Brydeinig. Grant Bach

Project: Nineteenth-Century Communications: A Documentary History, 1780-1918.

Dr Karin Koehler – Ysgol Ieithoedd, Ieithyddiaeth a Llenyddiaethau.

Teitl y Project: Judicial Review in Wales: Access to Justice and the Rule of Law.

Dr Sarah Nason – Y Gyfraith



Grantiau Ymchwil Diweddar



Teitl y Project: 81315 LIVE (Llyn Iweragh Ecomusems).

Yr Athro Ray Karl- Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas

Bydd **LIVE** yn hyrwyddo twristiaeth gan ddefnyddio'r model ecoamgueddfa a thrwy farchnata asedau cyfalaf naturiol a diwylliannol mewn modd cydweithredol i ddod â thwristiaid i'r rhanbarthau y tu allan i'r tymhorau twristiaeth brig traddodiadol, gan gynyddu'r manteision economaidd-gymdeithasol i'r cymunedau arfordirol.

Yn y rhifyn nesaf:

Proffiliau Myfyrwyr Ymchwil

Cyflwyno'r Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfaol Ymchwilwyr a mwy o Newyddion Ymchwil a Phroffiliau Prosiect.

**ANFONWCH
EICH
NEWYDDION**



Oes gennych chi rywbeth hoffech chi rannu?

Anfonwch eich syniadau, erthyglau neu luniau at cahbresearch@bangor.ac.uk neu yn syth i [TEAMS](#).

Gwobr i Ysgol Fusnes Bangor - Marie Sklodowska-Curie Fellowship

Mae Yener Altunbas, yn Athro Bancio yn Ysgol Fusnes Prifysgol Bangor. Ei brif ddiddordebau ymchwil yw astudio banciau Ewropeaidd, effeithlonrwydd banciau, polisi ariannol, llywodraethu corfforaethol, astudiaethau etholiadol, ac economeg ranbarthol a threfol. Ar hyn o bryd mae'r Athro Altunbas yn ymgynghorydd ar gyfer ECB, BIS ac mae'n cydweithredu ar brosiectau ymchwil gyda chydweithwyr eraill yn y Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF). Yn ddiweddar, bu'n gweithredu fel Cynghorydd Academaidd Ysgoloriaethau'r Gymanwlad. Mae ganddo PhD o Brifysgol Cymru.

Mae Md Atiqur Rahman Khan yn Athro Cysylltiol yn yr Adran Gyllid, Prifysgol Rajshahi, Bangladesh. Mae ganddo hefyd brofiad mewn gweithgareddau addysgu a gweinyddol (Ymchwil a Datblygu) yn y Gyfadran Fusnes, Prifysgol Curtin, Malaysia. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys gwytnwch system fancio, rheoliadau bancio a rheoli risg, cynaliadwyedd a materion yn y system ariannol, a dynameg facro-economaidd.

Gallai iawndal amgylcheddol effeithio ar ddiogelwch a chadernid banciau, a sefydlogrwydd ariannol hefyd, a thrwy hynny gynyddu'r risg systemig. Felly, byddai gweithgareddau economaidd a lles yn dioddef yn fawr. Mae'r ymchwil arfaethedig ar flaen y gad gan ei fod wedi'i gynllunio i ymchwilio, trwy ddadansoddiad empirig, i'r rhyng-gysylltiadau heb eu datgelu ymhlith y materion cyfredol - materion cynaliadwyedd amgylcheddol, sefydlogrwydd y system fancio, a risg systemig. Felly, nod yr ymchwil arfaethedig yw dod o hyd i gefnogaeth empirig ar gyfer cydnabod risg amgylcheddol yn benodol fel ffynhonnell risg systemig sy'n dod i'r amlwg.